



Elevator, Gŵyl Undod 2016, Hijinx (llun: Jonathan Dunn)

Cyngor Celfyddydau Cymru

Cynllun Camau Gweithredu Cydraddoldeb Strategol

2017 – 2021




Cyngor Celfyddydau Cymru
Arts Council of Wales



Noddir gan
Lywodraeth Cymru
Sponsored by
Welsh Government



Yn dyfarnu arian / Awarding funds from
Y LOTERI GENEDLAETHOL
THE NATIONAL LOTTERY®



Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn ymrwymedig i ddarparu gwybodaeth mewn print bras, Braille, ar dâp sain ac ar ffurf Iaith Arwyddion Prydain. Byddwn yn ceisio darparu gwybodaeth mewn ieithoedd ar wahân i'r Gymraeg a'r Saesneg ar gais.

Mae Cyngor Celfyddydau Cymru yn gweithredu [polisi cyfle cyfartal](#).

Rhagair

Yng Nghyngor Celfyddydau Cymru mae gennym ddwy flaenoriaeth allweddol – cefnogi rhagoriaeth yn y celfyddydau a chynyddu hygyrchedd i'r celfyddydau. Ein cenhadaeth yw gwneud y celfyddydau'n greiddiol i fywyd a llesiant Cymru. Craidd y genhadaeth hon yw dod o hyd i ffyrdd newydd o annog rhagor o bobl, a phobl fwy amrywiol, i fwynhau a chymryd rhan yn y celfyddydau gorau.

Nid gwaith newydd i'r Cyngor yw cefnogi rhagor o gydraddoldeb ymhlith y celfyddydau. Cyhoeddasom ein strategaeth gydraddoldeb gyntaf ym 1995 a'n strategaeth gyntaf am amrywiaeth ddiwylliannol yn 2000. Buddsoddasom mewn hyfforddiant a chefnogaeth i sefydliadau celfyddydol gan eu hannog i roi ar waith gynlluniau gweithredu cydraddoldebau sy'n llwyddiannus gan ddarparu cymorth ymarferol drwy gynnig ar-lein ein [Pecyn Gwybodaeth a Chanllawiau Cydraddoldeb](#). Yn ddiweddar lansiasom fentrau newydd megis Hynt (cynllun cerdyn hygyrchedd i bobl anabl ledled Cymru) a Chamau Creadigol (rhaglen ddatblygu i gefnogi artistiaid a sefydliadau a wynebodd rwystrau yn eu hymdrech i gael eu hariannu).

Ymfalchiwn yn y llwyddiannau hyn a pharhawn â'r gwaith targedol hwn. Ond bydd eisiau gwneud llawer rhagor o waith os ydym i gyrraedd cymunedau Cymru mewn ffordd ddyfnach ac ehangach.

Dengys ein hymchwil nad yw'r gweithgareddau a ariannwn ar hyn o bryd yn adlewyrchu o bell ffordd lefel pobl â nodweddion gwarchoddedig sydd yn y boblogaeth. A siarad yn blaen, nifer bychan iawn, iawn o gelfyddydau Cymru sy'n

cyrraedd pobl â nodweddion gwarchoddedig. Mae'r diffyg i'w weld yn glir yn y nifer affwysol o isel o bobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig a gyflogir yn y maes neu sydd ar ein byrddau rheoli. Mae hyn yn achos cryn bryder i'r Cyngor a rhaid iddo ddod i ben yn oes y cynllun hwn.

O ran mynychu, ymgyfranogi neu weinyddu ym maes y celfyddydau a ariennir gan y cyhoedd, boed yn weithiwr neu'n aelod o'r bwrdd, rhaid inni weld croestoriad ehangach o'r boblogaeth yn cael y cyfle i chwarae eu rhan. Ein nod yw mynd yn bellach nad adlewyrchu'r ystadegau cenedlaethol yn unig ac wedyn gorffwys ar ein rhwyfau. Dylai'r celfyddydau a ariennir yn gyhoeddus arwain drwy esiampl a bod yn uchelgeisiol yn eu hamcanion.

Felly heriwn ein sefydliad ein hunain, ein portffolio o sefydliadau a gaiff arian refeniw a'r rhai eraill a ariannwn yn y sector celfyddydol ehangach i roi rhagor o bwyslais ar y cydraddoldebau. Gosodasom dargedau clir iawn yn y strategaeth hon sy'n cynnwys gosod gweld ymateb priodol i'r targedau hyn yn amod ar gael ein harian.

Her fawr fydd yr uchelgais i drawsnewid perfformiad sector y celfyddydau ym maes y cydraddoldebau. Ond gwyddom fod yr uchelgais hwn yn un iawn a chywir. Ymateba'r Cyngor i'r her mewn ysbryd cydweithiol a byddwn yn agored iawn i drafodaeth gyda'r sector. Ond mae methiant ein sector o ran adlewyrchu'r proffil demograffig yn y boblogaeth yn gyffredinol – sef y lleiaf y dylem ei ddisgwyl – yn rhywbeth na allwn ei ganiatáu i barhau.

Yn ein [Hadroddiad Cydraddoldebau Blynyddol 2015/16](#) a gyhoeddwyd yn ddiweddar, tynnwn sylw at y newidiadau arwyddocaol y bydd ar bawb ohonom angen eu gwneud.

Ar ddiwedd y dydd, mae'n fater o ailedrych ar ein pwrpas a hynny o ongl wahanol. Nid yw cydraddoldeb yn rhyw ofyniad biwrocraidaidd newydd na 'phrosiect' na chyfle i gael rhagor o arian. Mae'n rhywbeth sylfaenol y dylai fod wrth wraidd gwaith pob un ohonom i greu cymdeithas deg a chyfartal.

Rydym am weld y celfyddydau'n coleddu cydraddoldeb a dathlu gwahaniaeth. Mae cymdeithas hael a theg yn cynnwys creadigrwydd pawb gan ei barchu a'i hyrwyddo. Dyma'n Cymru ddelfrydol.

Phil George
Cadeirydd, Cyngor Celfyddydau Cymru

Amcan Cydraddoldeb 1

Ymgysylltu, ymgynghori, porthi, annog ac ymherio a herio ein partneriaid yn weithredol

Yr hyn a ddywed y dystiolaeth:

Mae'r wybodaeth y dibynnwn arni yn cynnwys y data a gyhoeddwyd yn ein Hadroddiadau Cydraddoldebau Blynyddol ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16, gyda chanfyddiadau ein harolygon swyddogol. Yn ogystal â hyn, adolygasom gynlluniau busnes a'r ceisiadau a dderbyniwyd oddi wrth sefydliadau celfyddydol a lwyddodd i fynd yn rhan o Bortffolio Celfyddydol Cymru. Yn ddiweddarach, adolygasom ymateb ein Portffolio i'r alwad am gynlluniau cydraddoldeb strategol.

At ei gilydd, profa'r dystiolaeth inni wneud cynnydd sylweddol yn y blynyddoedd diweddar o ran gyrru ymlaen agweddau ar ein gwaith cydraddoldebau. Er gwaethaf hyn rydym wedi syrthio'n fyr o gyflawni ein nodau cydraddoldeb a ddisgrifiwyd yn ein Cynllun Strategol a ddatblygwyd yn 2012. Yn fwy na hynny, mewn rhai ardaloedd y bu gwrthgilio o gymharu ag ychydig o flynyddoedd yn ôl.

Yn ôl y dystiolaeth bydd raid inni wneud rhagor i godi proffil ein hamcanion cydraddoldeb yn ein sefydliad ein hunain ac ar draws y sector celfyddydol. Gwnaethom gynnydd da yn ein gwaith o ymgynghori â'r bobl a'r cymunedau y bwriadwn eu cyrraedd. Ond awgryma ein monitro o geisiadau grant, ymatebion ein Portffolio a lefelau isel o ddiddordeb wrth inni recriwtio staff i'n sefydliad fod yn rhaid inni ailgysylltu â'r cymunedau hyn mewn ffordd fwy ystyrlon a rhagweithiol.

Tynnodd yr ymatebion i'n hymgynghoriad ar ddrafft y Cynllun Cydraddoldeb Strategol sylw at gyfathrebu'n faes sydd eisiau canolbwytio arno'n fwy o ran sut y trafodwn y celfyddydau a sut y cyfathrebwn â'r gwahanol gymunedau buddiant. Amlygodd yr ymatebion hefyd yr angen i wella ein hoffer cyfathrebu. Rhaid inni godi proffil gwaith y Cyngor, ein cleientiaid a sefydliadau eraill drwy ein digwyddiadau a'n hymarfer gorau. Gwyddom nad diwedd y sgwrs yw'r Cynllun, eithr ei dechrau.

Canlyniad:

Sector celfyddydol sy'n fwy ymgysylltiedig a gwybodus ac sy'n hyderus wrth gymryd yr awenau parthed amrywiaeth a chydaddoldebau.

Yr hyn a wnawn:

1. Hyrwyddo'n fwy egniïol wybodaeth am yr ymarfer gorau parthed cydraddoldeb ac amrywiaeth. Gwnawn hyn drwy ein cyfathrebiadau a'n digwyddiadau cyhoeddus rheolaidd, drwy seminarau a digwyddiadau arddangos talent targedol, drwy ein canllawiau ar y cydraddoldebau a thrwy gyhoeddi astudiaethau achos ar ein gwefan.

	<ol style="list-style-type: none"> 2. Ymrwymo i ymgynghori ar ddatblygu pob polisi a rhaglen a gaiff effaith ar bobl â nodweddion gwarchoddedig a hynny gyda phobl yn y sector celfyddydol a phobl y mae ein polisïau a'n rhaglenni yn bwriadu eu cefnogi. 3. Datblygu sgiliau ein staff a thynnu ar wybodaeth ac arbenigedd penodol i herio, trafod ac amlygu'n well yr ymarfer gorau ym maes cydraddoldeb ac amrywiaeth gyda'r sefydliadau sydd yn y Portffolio. 4. Creu cyfleoedd i'n staff ac aelodau o'n Cyngor ymgymryd â datblygiad proffesiynol parhaus i ddwysáu eu dealltwriaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth. 5. Gofyn i'n Grŵp Monitro Cydraddoldebau mewnol fonitro ein cynnydd wrth ddiwallu'r amcanion hyn ac adrodd arno wrth yr Uwch Dîm Arwain a'r Cyngor. 6. Datblygu ffordd ar y cyd o fynd ati o ran sut y monitrwn a gwerthuswn safon ein prosiectau a'n gweithgareddau sy'n rhan o'r rhaglen hon.
<p>Nodweddion gwarchoddedig:</p>	<p>Oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; ethnigrwydd; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.</p>
<p>Sail y dystiolaeth:</p>	<p>Asesu'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig ar draws polisi a strategaeth; adroddiadau monitro rheolaidd i'n Uwch Tîm Arwain a'n Cyngor a gyhoeddir mewn Adroddiad Blynyddol, astudiaethau achos.</p>
<p>Sut y gwnawn hyn?</p>	<p>Parhawn i drafod gyda rhanddeiliaid ac ymgynghori â hwy yn barhaus drwy ein rhaglen o ddigwyddiadau Sgwrs a seminarau. Defnyddiwn y cyfle a geir yn ein Cynhadledd Genedlaethol i godi proffil y celfyddydau a chydraddoldebau.</p> <p>Ym mlwyddyn gyntaf y cynllun, datblygwn ffordd newydd o fynd ati o ran sut y gwerthuswn safon y gwaith a gynhyrchir ac a gyflwynir sydd â pherthnasedd penodol i'n agenda cydraddoldebau. Rhannwn yr ymarfer gorau drwy'n gwefan, ein bwletinau, ein hadroddiad blynyddol a'n digwyddiadau/cyfleoedd arddangos talent targedol.</p> <p>Cyhoeddasom hefyd Arweiniad Cydraddoldeb a diweddariad i'n dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn darparu gwybodaeth,</p>

cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar y cydraddoldebau a'r celfyddydau. Codwn broffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol. Comisiynwn ganllawiau ychwanegol i gefnogi'r sector.

Wrth adolygu ein gwefan a'n hoffer cyfathrebu ehangach, ceisiwn arweiniad i sicrhau eu bod wedi'u dylunio hyd safon y fanyleb orau o ran hygyrchedd.

Parhawn â'n sgwrs gyda phartneriaid allweddol a'r sector am gynnydd y cynllun hwn a cheisio eu cyngor a'u cymorth am sut yr adolygwn ac y newidiwn ein gwaith yn y dyfodol.

Datblygu gweithlu sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth Cymru

Yr hyn a ddywed y dystiolaeth:

Dengys ein Hadroddiadau Cydraddoldeb ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16 ddarlun cyfnewidiol dros y tair blynedd o ran nifer y bobl â nodweddion gwarchoddedig a gyflogid gan ein Portffolio o sefydliadau. Ar draws pob nodwedd warchoddedig, lleihaodd nifer y gweithwyr yn sylweddol yn 2014/15, ond cynyddodd wedyn yn 2015/16. Adlewyrcha'r patrwm hwn nifer y gweithwyr yn y Portffolio'n gyffredinol ar draws y tair blynedd. Neges allweddol y data yw'r nifer isel o bobl â nodweddion gwarchoddedig a gyflogir yn y Portffolio yn gyffredinol, gan wrthgyferbynnu hwn â nifer y gweithwyr nad ydynt â nodweddion gwarchoddedig. Amlyga'r yn benodol y mater hwn o ran pobl anabl a phobl dduon, Asiaidd ac ethnig. Dengys yr ystadegau o'n sefydliad ein hunain ein bod o hyd yn atynnu nifer isel o geisiadau am swyddi oddi wrth bobl â nodweddion gwarchoddedig.

Gofynnwn i artistiaid unigol sy'n ymgeisio am arian o'n cynllun loteri lenwi ffurflenni monitro cydraddoldeb. Dros y tair blynedd diwethaf cafwyd lleihad yn nifer y ffurflenni a ddychwelwyd. O ystyried y rheini, ymddengys fod lleihad yn nifer y ceisiadau gan artistiaid duon, Asiaidd ac ethnig gyda chynnydd bychan iawn yn unig yn nifer yr artistiaid anabl sy'n ymgeisio. Dywed y data wrthym hefyd fod nifer y grwpiau dan arweiniad pobl â nodweddion gwarchoddedig sy'n ymgeisio am arian y loteri (a'i gael) yn aros yn isel yn gyson. A hynny er gwaethaf llwyddiant ein rhaglen Camau Creadigol yn y blynyddoedd diwethaf.

O'r adborth o'n hymgyngoriad y dysgasom mai cam allweddol i amrywiaethu ein gweithlu yw drwy Arweinyddiaeth. Cawsom y neges yn glir bod yn rhaid inni amlygu pwysigrwydd y gwaith hwn ar y lefel uchaf os ydym i wella pethau'n sylweddol a herio arweinwyr y sector celfyddydol i ymgymryd â'r gwaith a chymryd rhagor o gyfrifoldeb am arwain a galluogi newid.

Canlyniad:

Gweithlu celfyddydol sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth Cymru ar lefel leol a chenedlaethol ac ystadegau gweithlu Cymru. Sector celfyddydol sy'n cydnabod a gwerthfawrogi cyfraniad pobl â nodweddion gwarchoddedig ymhob maes ac ar bob lefel o gyflogaeth. Erbyn 2021 bydd pobl anabl yn cynrychioli 12.9% o'r gweithlu celfyddydol ac o leiaf 3.9% a fydd pobl dduon ac ethnig.

<p>Yr hyn a wnawn:</p>	<ol style="list-style-type: none"> 1. Amrywiaethu gweithlu Cyngor Celfyddydau Cymru. 2. Gwella gwybodaeth a dealltwriaeth ein gweithlu Eu harfogi'n well i gefnogi datblygiad sectorau celfyddydol mwy amrywiol. 3. Canolbwyntio'n benodol ar gynyddu nifer y bobl anabl a rhai duon, Asiaidd ac ethnig a gyflogir yn y sector celfyddydol. 4. Hyrwyddo swyddogaeth y gymuned lesbiaidd, hoyw, deurywiol a thrawsrywiol ar draws y sector celfyddydol. 5. Cynyddu cyfleoedd i artistiaid duon, Asiaidd, ethnig ac anabl i greu a chyflwyno eu gwaith, drwy gefnogaeth dargedol a rhaglenni datblygiad proffesiynol a thrwy flaenoriaethu cefnogaeth drwy ein hariannu arferol o'r loteri. 6. Gweithio gyda'n Portffolio a'i fonitro i amrywiaethu eu gweithlu.
<p>Nodweddion gwarchoddedig:</p>	<p>Oedran; anabled; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; ethnigrwydd; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol, priodas a phartneriaeth sifil.</p>
<p>Sail y dystiolaeth:</p>	<p>Asesu'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig ar draws polisi a strategaeth; proffil y staff; cwynion (y cyhoedd a'r staff); arolygon y staff; monitro perfformiad; gwerthusiadau o'r staff; polisi caffael.</p> <p>Arolwg o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, Arolwg Celfyddydau Cymru. Ceisiadau am arian loteri ac adroddiadau diweddu.</p>
<p>Sut y gwnawn hyn?</p>	<p>Adolygwn ein ffordd o fynd ati o ran recriwtio mewnol a datblygu cynllun gweithredu i wella ac estyn ein cyrraedd. Yn rhan o raglen datblygu'r staff darparwn ddatblygiad proffesiynol parhaus a hyfforddiant i gynnwys maes Hyrwyddwyr Cydraddoldeb/Amrywiaeth.</p> <p>Ymrwymwn i godi proffil y cydraddoldebau ar draws gwaith y Cyngor, ar lefel Uwch Arweinwyr ac ymhlith aelodau o'n Cyngor.</p> <p>Adolygwn waith cyrff eraill a chraffu arno i ddysgu o'u llwyddiant wrth amrywiaethu eu gweithlu gan fabwysiadu neu addasu'r rhaglenni hyn ar gyfer ein gwaith ni lle bo hynny'n addas.</p>

Parhawn i redeg Rhaglen y Camau Creadigol i ddatblygu busnes a sefydliadau (a lanswyd ym mlwyddyn gyntaf y Cynllun). Targedda hyn gefnogaeth i sefydliadau dan arweiniad pobl dduon, Asiaidd, ethnig ac anabl – ein nod yw cryfhau'r rhwydwaith cefnogi i artistiaid duon, Asiaidd, ethnig ac anabl ymhob celfyddyd. Parhawn hefyd i neilltuo arian yn ein cynlluniau loteri i gefnogi gwaith yr artistiaid â nodweddion gwarchoddedig. Codwn broffil y prosiectau a ddatblygir ac a ddarperir gan grwpiau a gefnogir drwy'r rhaglen hon.

Parhawn i gefnogi'r rhaglen gomisiynau, Heb Ffiniau, mewn partneriaeth â Chynghorau Celfyddydol eraill Prydain i wella cynhwysedd artistiaid anabl a sefydliadau celfyddydol anabl a'u cefnogi. Adolygwn effaith y Rhaglen Datblygu Artistiaid duon, Asiaidd ac ethnig a gynhelir ar hyn o bryd gan g39 ac archwilio sut i ddatblygu'r rhaglen hon yn bellach.

Erbyn hyn, Hyrwyddwr Stonewall Cymru ydym a chydweithiwn â Stonewall Cymru i ddeall y swyddogaeth hon yn well a gwneud y gwaith yn fwy effeithiol. O bosibl oherwydd hyn y datblygwn raglenni targedol yn ystod oes y cynllun.

Mynnwn fod ein Portffolio, ac yntau'n amod cael arian gennym, yn cyflwyno cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Strategol boddhaol. Disgwylw'n i gynlluniau gynnwys gwybodaeth am sut y cymer ein Portffolio gamau i amrywiaethu eu gweithlu. Cydweithiwn â'r Portffolio i nodi, datblygu a darparu rhaglenni targedol yn ôl y gofyn.

O ran arian loteri, craffwn ar ein meini prawf ariannu, ein canllawiau a'n hamodau cael grant ac adolygwn y rhain yn ôl y gofyn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddadansoddiad y sefydliadau a ariannwn a chael gwybod am unrhyw newidiadau angenrheidiol. Bydd y rhain yn cynnwys adolygu ein meini prawf ariannu.

Cyhoeddassom Arweiniad Cydraddoldeb a diweddariad i'n dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn darparu gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar y cydraddoldebau a'r celfyddydau. Codwn broffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol a chomisiynu canllawiau pellach yn ôl y gofyn.

Amcan Cydraddoldeb 3

Gwella cynrychiolaeth ym maes llywodraethu sefydliadau celfyddydol

<p>Yr hyn a ddywed y dystiolaeth:</p>	<p>Dysgasom o'n Hadroddiad Cydraddoldeb Blynyddol 2014/15 fod 764 aelod o fyrddau rheoli/cyrff llywodraethol ar draws ein Portffolio. O'r rhain dim ond 25 oedd yn bobl anabl - lleihad o 10.7% o'i gymharu â'r llynedd - a dim ond 11 oedd yn ddu, Asiaidd neu ethnig. Roedd 34 yn lesbiaid, hoywon, deurywion neu drawsrywion a 386 dros 50 oed.</p> <p>Dengys ein hadroddiad 2015/16 leihad pellach yn y niferoedd gyda dim ond 17 o bobl anabl a 9 person du, Asiaidd neu ethnig ar fyrddau rheoli 69 sefydliad. Mae nifer y lesbiaid, hoywon, deurywion a thrawsrywion hefyd wedi lleihau o 34 i 22.</p> <p>Amlyga'r data un o'r prif faterion a ddaeth o'n hymgyngoriad ar y cynllun drafft sef Arweinyddiaeth yn y sector celfyddydol. Lleisiwyd pryderon am y proffil isel, yn ôl y gred gyffredinol, sydd i agenda'r cydraddoldebau ymhlith sefydliadau celfyddydol arwyddocaol ac arweinwyr ym maes y celfyddydau gan ein cynnwys ni.</p>
<p>Canlyniad:</p>	<p>Cynrychiolaeth ar fyrddau/cyrff llywodraethu ein sefydliadau celfyddydol arweiniol sy'n adlewyrchu'n well amrywiaeth Cymru ar lefelau lleol a chenedlaethol. Erbyn 2021 byddwn wedi cynyddu nifer y bobl anabl ar fyrddau rheoli ein sefydliadau celfyddydol i o leiaf 12.9% a nifer y bobl dduon ac ethnig i o leiaf 3.9%.</p>
<p>Yr hyn a wnawn:</p>	<ol style="list-style-type: none">1. Cynnwys ymwybyddiaeth o gydraddoldeb ac amrywiaeth yn Rhaglen Datblygu Byrddau ein Portffolio.2. Mynnu bod ein Portffolio'n amrywiaethu eu byrddau a monitro cynnydd drwy Gynlluniau Camau Gweithredu blynyddol o ran Cydraddoldeb Strategol.3. Diwygio ein meini prawf cael arian loteri i sicrhau bod derbynwyr grant yn cynnwys hyrwyddo cydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu gwaith ac yn eu sefydliadau eu hunain.4. Nodi a rhannu astudiaethau achos am yr ymarfer gorau.5. Dyfeisio rhaglen am Arweinyddiaeth yn y celfyddydau gan ganolbwyntio ar amrywiaeth.6. Ym mlwyddyn 1, blaenoriaethu symud ymlaen y maes hwn o'n cynllun cydraddoldeb strategol.

<p>Nodweddion gwarchoddedig:</p>	<p>Oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; ethnigrwydd; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol.</p>
<p>Sail y dystiolaeth:</p>	<p>Asesu'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig ar draws polisi a strategaeth; proffil y staff; cwynion (y cyhoedd a'r staff); arolygon y staff; monitro perfformiad; gwerthusiadau o'r staff; polisi caffael Arolwg o sefydliadau Portffolio Celfyddydol Cymru, Arolwg Celfyddydau Cymru.</p> <p>Adroddiadau o'n cynlluniau arian loteri.</p>
<p>Sut y gwnawn hyn?</p>	<p>Mynnwn fod ein Portffolio, ac yntau'n amod cael arian gennym, yn cyflwyno cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Strategol boddhaol. Disgwyliwn i gynlluniau gynnwys gwybodaeth am sut y cymer sefydliadau ein Portffolio gamau i amrywiaethu eu byrddau rheoli. Cydweithiwn â'r Portffolio i nodi, datblygu a darparu rhaglenni targedol yn ôl y gofyn.</p> <p>Cynnwys ein Rhaglen Datblygu Bwrdd a'n Cynllun Gwytnwch newydd elfennau penodol i gefnogi sefydliadau i nodi camau gweithredu i amrywiaethu eu byrddau.</p> <p>O ran arian loteri, craffwn ar ein meini prawf ariannu, ein canllawiau a'n hamodau cael grant ac adolygwn y rhain yn ôl y gofyn i ddatblygu gwell dealltwriaeth o ddadansoddiad y sefydliadau a ariannwn a chael gwybod am unrhyw newidiadau angenrheidiol.</p> <p>Cyhoeddasom Arweiniad Cydraddoldeb a diweddariad i'n dogfen, Lle Cyfartal. Darpara'r ddwy ddogfen hyn wybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar gydraddoldebau a'r celfyddydau. Codwn broffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol a chomisiynu canllawiau pellach yn ôl y gofyn.</p> <p>Gweithio mewn partneriaeth gyda chyrrff eraill i ddatblygu rhaglen arweinyddiaeth ym maes y celfyddydau a cydraddoldebau.</p>

Cynyddu amrywiaeth cynulleidfaoedd celfyddydol

Yr hyn a ddywed y dystiolaeth:

Dengys ein harolygon Portffolio Celfyddydol Cymru ar gyfer 2013/14, 2014/15 a 2015/16 batrwm cyfnewidiol o ran mynychuadau mewn digwyddiadau sy'n targedu pobl â nodweddion gwarchoddedig. O'i gymharu â'r flwyddyn flaenorol, dangosodd data 2014/15 y bu cynnydd yn nifer y digwyddiadau sy'n targedu pobl anabl ond lleihad yn nifer y bobl anabl sy'n eu mynychu. Ond dengys 2015/16 gynnydd yn nifer y digwyddiadau targedol a'r mynychuadau o ran pobl anabl. Dros y tair blynedd, aeth canran y mynychuadau gan bobl anabl o 14.3% i 8% i 19.7%.

Mae stori debyg i'w hadrodd am bobl dduon, Asiaidd ac ethnig - cynnydd yn y digwyddiadau ond lleihad yn y mynychuadau. Lleihaodd nifer y mynychuadau gan bobl dduon, Asiaidd neu ethnig i ddigwyddiadau targedol o 7.8% yn 2013/14 i 4.7% yn 2014/15 a 6.9% yn 2015/16.

O'r data hwn cawn ddarlun o'r tueddiadau ymhlith ein Portffolio ac awgryma'r ymateb i'r ymgynghoriad fod ein cynllun yn canolbwyntio'n rhy drwm ar y grŵp hwn o sefydliadau. Dengys y data o'n harolwg diwethaf o Gelfyddydau Cymru yr angen inni ganolbwyntio ar y meysydd hyn o ddefnydd isel yn ogystal â gweithio gyda'n Portffolio sy'n cael y dogn mwyaf o'n harian. Cydnabyddwn hefyd fod yn rhaid inni gydweithio â'r sector celfyddydol ehangach i gyflawni newid sylweddol.

Amrywia niferoedd sesiynau targedol a mynychuadau parthed y grwpiau eraill â nodweddion gwarchoddedig yn fawr ac o flwyddyn i flwyddyn gan awgrymu tuedd gyfnewidiol yn y rhaglenni targedol. Rhaid inni ystyried sut y daliwn ddata a ddaw o ystod y gweithgarwch celfyddydol i roi inni ddarlun mwy cynhwysfawr o'r patrymau a'r tueddiadau inni weld lle y dylem ganolbwyntio ein hadnoddau.

Canlyniad:

Bydd rhaglenni a digwyddiadau celfyddydol yn gyson hygyrch a pherthnasol i gynulleidfaoedd amrywiol a gallant eu mwynhau. Ein nod fydd cynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynychu digwyddiadau gan 12.9% yn ychwanegol a nifer y bobl dduon ac ethnig gan o leiaf 3.9%.

Yr hyn a wnawn:

1. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol ledled Cymru.
2. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol a gynydda nifer y bobl dduon, Asiaidd neu ethnig sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol.

	<ol style="list-style-type: none"> 3. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol a gynydda nifer y bobl hŷn sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol. 4. Sicrhau, drwy ein harian grant loteri a'n cytundebau ariannu, nifer cynyddol o ddigwyddiadau celfyddydol a pherfformiadau sy'n hygyrch i ystod o gynulleidfaoedd amrywiol. 5. Sicrhau bod ein Portffolio'n prif ffrydio'n rhagweithiol gyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchoddedig fwynhau eu gwaith ac yn monitro amrywiaeth y gynulleidfa. 6. Cytuno/pennu targedau am gynyddu mynychuadau.
<p>Nodweddion gwarchoddedig:</p>	<p>Oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; ethnigrwydd; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol.</p>
<p>Sail y dystiolaeth:</p>	<p>Asesu'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig ar draws polisi a strategaeth; Mewnwelediad Cynulleidfa a thystiolaeth o Hynt, Arolwg o'r Portffolio, gwerthuso a monitro rhaglenni, cynlluniau cydraddoldeb y Portffolio, adroddiadau monitro o'n cynlluniau ariannu loteri, cyhoeddi infograffigau gyda data allweddol.</p>
<p>Sut y gwnawn hyn?</p>	<p>Parhawn i gynnal Hynt, ein cynllun cerdyn anabledd i leoliadau celfyddydol ledled Cymru. Archwiliwn hefyd y posibiliad o estyn y cynllun ar draws y sector celfyddydol. Monitrwn yr effaith o'r cynllun ar gynulleidfaoedd yng Nghymru drwy ein prosiect marchnata a datblygu cynulleidfaoedd, Mewnwelediad Cynulleidfaoedd.</p> <p>Cynnwys ein harian am Gynhyrchu a Theithio amod derbyn grant am berfformiadau hygyrch a monitrwn effaith hyn i borthi ein gwaith yn y dyfodol.</p> <p>Archwiliwn y posibilidadau am gefnogaeth dargedol i annog cydfentrau rhwng cwmnïau cynhyrchu cynhwysol a theatrau/canolfannau celfyddydol i gynhyrchu gwaith teithio sy'n rhoi cydraddoldebau wrth wraidd eu gwaith.</p> <p>Mae ein strategaeth Gyfalaf gyfredol yn nodi'r angen i fynd i'r afael â hygyrchedd yn ein lleoliadau celfyddydol. Hyd yn hyn, ni fu fawr o ddefnydd ar y cynllun. Ailymwelwn â hyn gan gofio'r wybodaeth a gawn drwy gynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Strategol ein Portffolio.</p>

Mynnwn fod ein Portffolio yn cyflwyno cynlluniau gweithredu Cydraddoldeb Strategol yn amod ariannu. Bydd hyn yn ein galluogi i fod yn fwy gwybodus am ystod o faterion. Mae'r rhain yn cynnwys:

- y sefyllfa gyfredol o ran cydraddoldeb a chyflogaeth yn y celfyddydau
- y gwaith y bwriada ein portffolio ei wneud i fynd i'r afael â'r materion a nodwyd
- y gwaith y bydd raid inni ymgymryd ag ef i gefnogi'r portffolio

Monitrwn ddarpariaeth cynlluniau gweithredu'r Portffolio a datblygu a darparu rhaglenni targedol yn ôl y gofyn. Cynhwyswn amodau penodol mewn cytundebau ariannu â'r Portffolio yn ôl y gofyn.

O ran grantiau loteri, craffwn ar ein meini prawf, ein canllawiau a'n hamodau ac adolygwn y rhain yn ôl y gofyn. Drwy ein cymorthfeydd ariannu, targedwn gymunedau ac unigolion â nodweddion gwarchoddedig i sicrhau bod gwybodaeth briodol a pherthnasol ar gael. Monitrwn hefyd fynychiadau yn y cymorthfeydd hyn ac adrodd amdanynt.

Cyhoeddasom Arweiniad Cydraddoldeb a diweddariad i'n dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn darparu gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar y cydraddoldebau a'r celfyddydau. Codwn broffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol a chomisiynu canllawiau pellach yn ôl y gofyn.

Amcan Cydraddoldeb 5

Cynyddu amrywiaeth yr ymgyfranogwyr o'r celfyddydau

Yr hyn a ddywed y dystiolaeth:

Dengys ein harolwg o'n Portffolio am y tair blynedd 2014/14-2015/16 ddarlun cyfnewidiol o ran sesiynau ymgyfranogol i grwpiau â nodweddion gwarchoddedig.

Cafwyd lleihad yng nghanran nifer y bobl anabl a ymgyfranogai o'r sesiynau targedol yn y cyfnod 2013/14-2014/15 (o 10.4% i 9.7%) ond cynnydd yn 2015/16 (i 11.6%).

Pryder mwy difrifol yw'r data am bobl dduon, Asiaidd neu ethnig sy'n ymgyfranogi o sesiynau targedol. Dengys y data hwn yn 2013/14 mai dim ond 1.5% o'r bobl a aeth i holl ddigwyddiadau targedol a gynhaliwyd oedd pobl dduon, Asiaidd neu ethnig. Yn 2014/15 cynyddodd y nifer i 4.1% ond syrthiodd i 2.5% yn 2015/16. Mae nifer y sesiynau targedol i bobl dduon, Asiaidd neu ethnig hefyd yn isel (rhwng 0.4% a 0.6%).

Amrywia niferoedd sesiynau targedol a mynychuadau parthed y grwpiau eraill â nodweddion gwarchoddedig yn fawr ac o flwyddyn i flwyddyn gan awgrymu tuedd gyfnewidiol yn y rhaglenni targedol. Megis gyda niferoedd cynulleidfaol, rhaid inni ystyried sut y daliwn ddata a ddaw o ystod y gweithgarwch celfyddydol i roi inni ddarlun mwy cynhwysfawr o'r patrymau a'r tueddiadau inni weld lle y dylem ganolbwyntio ein hadnoddau.

Canlyniad:

Mae rhaglenni a digwyddiadau celfyddydol ymgyfranogol yn gyson hygyrch, yn berthnasol i bawb ac yn cael eu mwynhau gan bawb. Ein nod fydd cynyddu nifer y bobl anabl sy'n mynychu digwyddiadau celfyddydol gan 12.9% yn ychwanegol a nifer y bobl dduon ac ethnig gan o leiaf 3.9%.

Yr hyn a wnawn:

1. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol i gynyddu nifer y bobl anabl sy'n ymgyfranogi o ddigwyddiadau celfyddydol ledled Cymru.
2. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol a gynyddu nifer y bobl dduon ac ethnig sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau ledled Cymru.
3. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol a gynyddu nifer y bobl hŷn sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau ledled Cymru.
4. Dechrau a gweithredu rhaglenni targedol a gynyddu nifer y plant, pobl ifainc a theuluoedd sy'n ymgyfranogi o'r celfyddydau, yn benodol ymhlith ein cymunedau mwyaf difreintiedig.

	<p>5. Sicrhau bod ein Portffolio'n prif ffrydio'n rhagweithiol gyfleoedd i bobl â nodweddion gwarchoddedig fwynhau eu gwaith ac yn monitro amrywiaeth yr ymgyfranogwyr.</p>
Nodweddion gwarchoddedig:	<p>Oedran; anabledd; ailbennu rhywedd; beichiogrwydd a mamolaeth; ethnigrwydd; crefydd neu gred; rhywedd; cyfeiriadedd rhywiol.</p>
Sail y dystiolaeth:	<p>Asesu'r effaith ar nodweddion gwarchoddedig ar draws polisi a strategaeth; Mewnwelediad Cynulleidfa, Arolwg o Bortffolio Celfyddydol Cymru, gwerthuso a monitro rhaglenni, cynlluniau cydraddoldeb Portffolio Celfyddydol Cymru, adroddiadau monitro o gynllun arian y loteri, inffograffig.</p>
Sut y gwnawn hyn?	<p>Parhawn i ddarparu ein rhaglenni targedol cyfredol a gwerthuso eu heffaith. Bydd hyn o gymorth i borthi datblygiadau'r dyfodol. Ymhlith y rhaglenni cyfredol, mae: Dysgu Creadigol drwy'r Celfyddydau, cydgynllun sy'n targedu plant a phobl ifainc, gyda Llywodraeth Cymru; Cartrefu Cymru – cydbrosiect ag Age Cymru a Sefydliad Baring sydd â'r nod i gyrraedd pobl hŷn sy'n byw mewn cartrefi preswyl.</p> <p>O 2016 ymlaen, un o'n hamcanion allweddol yw datblygu strategaeth fawr ym maes Celfyddydau ac Iechyd Cymru. Dysgasom o'n gwaith cwmpasu hyd yn hyn fod y celfyddydau ac iechyd meddwl yn debygol o fod yn elfen allweddol o'r strategaeth hon sydd eisiau camau gweithredu a rhaglenni penodol.</p> <p>Cynnwys ein strategaeth gyfredol am arian Cyfalaf faes sydd gyda'r nod o fynd i'r afael ag anawsterau hygyrchedd yn ein lleoliadau celfyddydol. Hyd yn hyn ni fu fawr o ddefnydd ar y cynllun ac ailystyriwn hyn gan gymryd i ystyriaeth y wybodaeth a gawn drwy gynlluniau gweithredu cydraddoldeb strategol ein Portffolio.</p> <p>Mynnwn fod ein Portffolio yn cyflwyno cynlluniau gweithredu cydraddoldeb strategol yn amod o gael arian gennym. Wedyn cawn well gwybodaeth am sefyllfa gyfredol parthed cydraddoldeb a chyflogaeth yn y celfyddydau, am waith arfaethedig ein portffolio i fynd i'r afael â'r materion a nodasant ac am y gwaith y bydd yn rhaid inni ei wneud i gefnogi'r portffolio. Monitrwn ddarpariaeth y cynlluniau gweithredu a datblygwn a chyflawnwn raglenni targedol yn ôl y gofyn. Cynhwyswn amodau penodol yng nghytundebau ariannu'r Portffolio yn ôl y gofyn.</p>

O ran grantiau loteri, craffwn ar ein meini prawf, ein canllawiau a'n hamodau ac adolygwn y rhain yn ôl y gofyn. Drwy ein cymorthfeydd ariannu, targedwn gymunedau ac unigolion â nodweddion gwarchoddedig i sicrhau bod gwybodaeth briodol a pherthnasol ar gael. Monitrwn hefyd fynychiadau yn y cymorthfeydd hyn ac adrodd amdanynt.

Cyhoeddassom Arweiniad Cydraddoldeb a diweddariad i'n dogfen Lle Cyfartal. Mae'r ddwy ddogfen yn darparu gwybodaeth, cyngor ac astudiaethau achos am bob agwedd ar y cydraddoldebau a'r celfyddydau. Codwn broffil y cyhoeddiadau hyn ar draws y sector diwylliannol a chomisiynu canllawiau pellach yn ôl y gofyn.

Rydym megis cychwyn datblygu partneriaeth gyda chymuned y Sipsi, y Romani a Theithwyr yng Nghymru a rhagwelwn gael prosiect targedol ym mlwyddyn 2 o'r cynllun hwn.